

No.

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 14 Medi, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr W. Gilligan, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, J. Lynch-Wilson, N. Marshallsea a J.M. Norman.

Aelodau cyfetholedig: L. Barrowclough (Rhiant Lywodraethwr – Sector Gynradd), M. Price (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig), A. Emmerson ac R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro), G. Scott (Addysg Cyfrwng Cymraeg), J. Clemett a T. Williams (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), C.P. Franks a E. Goodjohn.

320 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

321 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorydd H.M, Payne (Is-gadeirydd), Gynghorwyr A. Asbrey, R.E. Godfry a E. Penn a R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru)

322 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin, 2023 a 13 Gorffennaf, 2023 fel cofnod cywir.

323 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd Dr. M. Price fuddiant personol a rhagfarnus yn Eitem Agenda Rhif 6 – Ymgynghoriad ar y Cynnig i Gyflwyno Adeilad Newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig St. Richard Gwyn (Cyfeirnod) – gan ei fod yn Llywodraethwr Sefydledig yn Ysgol Gatholig St. Richard Gwyn Ysgol Uwchradd.

324 STRATEGAETH ARIANNOL 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 20 Gorffennaf 2023, fel y'i cafwyd yn yr agenda, gan y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, cytunwyd i fynd ar drywydd cais y Cadeirydd am wybodaeth ynghylch lleoliadau disgyblion y tu allan i'r sir a rhannu'r wybodaeth hon â'r Pwyllgor ar ôl ei derbyn.

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad Strategaeth Ariannol 2024/25 atodedig.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad ar Strategaeth Ariannol y Cyngor 2024/25, ac i'r trafodaethau yn y cyfarfod.

325 STRATEGAETH GYFALAF DDRAFFT 2024/25 A CHYNIGION RHAGLEN GYFALAF GYCHWYNNOL 2024/25 I 2028/29 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 20 Gorffennaf 2023, fel y'i cafwyd yn yr agenda, gan y Rheolwr Cymorth Cyllid.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, ar ôl ystyried y mater yn llawn, penderfynwyd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Cyfeirnod y Cabinet a Strategaeth Gyfalaf Ddrafft 2024/25 atodedig a Chynigion Rhaglen Gyfalaf Cychwynol 2024/25 i 2028/29.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad ar Strategaeth Gyfalaf Ddrafft y Cyngor 2024/25 a Chynigion Rhaglen Gyfalaf Cychwynol 2024/25 i 2028/29, ac i drafodaethau yn y cyfarfod.

326 YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I GYFLWYNO ADEILAD NEWYDD AR GYFER YSGOL UWCHRADD GATHOLIG ST RICHARD GWYN (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 20 Gorffennaf 2023, fel y'i cafwyd yn yr agenda, gan y Rheolwr Gweithredol Strategaeth ac Adnoddau.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, croesawodd y Cynghorydd Marshallsea y cynnig ac, yn benodol, y gallai disgyblion aros ar safle'r ysgol bresennol tra bod yr ysgol yn cael ei hailadeiladu.

No.

Yna ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg ei fod yn cymeradwyo'r cynllun i ehangu'r ysgol i fynd i'r afael â'i gorlenwi ac i ateb y galw am leoedd.

Yn dilyn hynny, adleisiodd y Cadeirydd y sylwadau blaenorol a gofynnodd i gymeradwyaeth y Pwyllgor o'r cynnig hwn gael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad.

Wedi hynny, heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, penderfynwyd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Cyfeirnod y Cabinet a'r Ymgynghoriad atodedig ar y cynnig i gyflwyno adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig St. Richard Gwyn.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar y cynnig i godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig St. Richard Gwyn, ac i drafodaethau yn y cyfarfod.

327 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT BRO MORGANNWG 2022/23 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 7 Medi 2023 gan y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, dywedodd y Pennaeth Safonau a Darpariaeth fod effeithiau hirdymor y pandemig yn effeithio ar lefelau presenoldeb gyda rhai plant yn ei chael hi'n anodd dychwelyd i'r ysgol. Ychwanegodd y swyddog bod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud i wella presenoldeb gan gynnwys ymgyrch hyrwyddo Colli'r Ysgol, Colli'r Cyfle a gwelliannau i'r ffordd y mae presenoldeb yn cael ei gofnodi gan ysgolion. Dywedodd y swyddog fod Bro Morgannwg, er ei bod wedi cael ei rhestru'n 14 ar draws holl Awdurdodau Lleol Cymru o ran presenoldeb ysgol, wedi gweld cynnydd sylweddol i'r 6^{ed} lle ers hynny.

Gan na chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, penderfynwyd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad drafft atodol ar gyfer Hunanasesiad Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2022/23.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad ar Hunanasesiad Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg 2022/23, a thrafodaethau yn y cyfarfod.

328 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2022/2023 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 7 Medi 2023 gan y Swyddog Diogelu.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, dywedodd y Cynghorydd E.J. Goodjohn fod cofnodi achosion o fwlio yn gam cadarnhaol a fyddai'n helpu i annog presenoldeb yn yr ysgol.

Gan na chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, penderfynwyd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Cyfeirnod y Cabinet a'r Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol atodedig: 2022/23.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet a'r Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol: 2022/23, a thrafodaethau yn y cyfarfod.

329 MONITRO REFENIW CHWARTER 1 2023/24 (CDS) –

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan y Rheolwr Cymorth Cyllid.

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor am y sefyllfa o ran Monitro Refeniw Chwarter 1 (Ch1) ar gyfer 2023/24.

Mae'r tabl isod yn nodi'r Gyllideb Wreiddiol a'r ceisiadau Trosglwyddiadau i'w cymeradwyo gan y Gyfarwyddiaeth:

Cyfarwyddiaeth	Cyllideb Wreiddiol 2023/24	Cais am Drosglwyd diadau 2023/24	Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24	Alldro Rhagamcanol	Amrywiad
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Dysgu a Sgiliau	130,711	-33	130,678	130,678	0
Gwasanaethau Cymdeithasol	88,858	33	88,891	89,891	1,000
Yr Amgylchedd a Thai	34,260	700	34,960	35,960	1,000
Adnoddau Corfforaethol	5,047	-667	4,380	4,380	0
Lle	4,261	60	4,321	4,321	0
Polisi	33,381	-93	33,288	31,288	-2,000
Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn	-2,096	0	-2,096	-2,096	0
Cyfanswm	294,422	0	294,422	294,422	0

No.

Tai Sector Cyhoeddus (CRT)	10,672	0	10,672	10,672	0
Cyfanswm	305,094	0	305,094	305,094	0

Parhaodd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2023/24 i adlewyrchu'r galw heriol a'r pwysau chwyddiant, gyda galw cynyddol mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion ac roedd cynnydd sylweddol yng nghost lleoliadau a pheynnau gofal, Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn parhau i fod yn faes dan bwysau mawr o fewn Dysgu a Sgiliau. Roedd y Cyngor hefyd yn profi pwysau chwyddiant parhaus mewn perthynas â Thrafnidiaeth Ysgol. Ar draws y gwasanaethau roedd pwysau chwyddiant hefyd yn cael eu profi yng nghyswllt cyflogau, yn fwyaf nodedig lle'r oedd grymoedd y farchnad yn cael eu defnyddio ac o ran y bwlch cyllido rhwng y dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24 a'r dyfarniad cyflog tebygol ar gyfer 2023/24.

Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol wedi'u pennu ar gyfer 2023/24, gan gynnwys targed o £2.75m ar gyfer ysgolion a £4.628m o arbedion Corfforaethol. Adlewyrchwyd y cynnydd yn erbyn y targedau arbedion hyn yn Atodiad B yr adroddiad ac fe'u crynhoir yn y tabl isod.

Cyfarwyddiaeth	Targed	Rhagamcan	% Wedi'i Chyflawni	Lliniaru	% y Lliniaru a Gyflawnwyd	Diffyg	% y Diffyg
	£000oedd	£000oedd	%	£000oedd	%	£000oedd	£000oedd
Polisi	1,565	1,565	100	-	0	-	0%
Adnoddau	582	308	53	73	47	1	0%
Cymdogaeth a Thai	1,000	883	88	40	4	77	8%
Dysgu a Sgiliau	564	405	72	-	0	159	28%
Gwasanaethau Cymdeithasol	681	681	100	-	0	-	0%
Lle	265	133	50	-	0	132	50%
Cyfanswm	4,657	3,975	85	313	7	369	8%

Mae trosglwyddiadau rhagamcanol i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt wedi'u nodi yn y tabl isod:

Ar	Balans ar 01/04/2023	Cyllid Cyfalaf	Trosglwyddo Cynlluniedig (o) gronfeydd wrth gefn	Trosglwyddo Cynlluniedig i gronfeydd wrth gefn	Tynnu i lawr heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn	Amcangyfrif o'r Balans 31/03/2024
	£000	£000	£000	£000	£000	£000

Cronfa Gyffredinol	11,523	0	-496	0	0	11,027
Yswiriant	4,877	0	0	0	0	4,877
Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau	22,521	-646	-6,426	42	-3,246	12,246
Cronfeydd Risg a Llyfnhau	29,802	-4,404	-4,022	165	0	21,541
Cyfalaf	17,726	-14,885	-477	823		3,187
Ysgolion	7,254	0	-6,500	0		754
Cyfrif Refeniw Tai	16,486	-15,537	0	0		949
Cyfanswm	110,190	-35,472	-17,921	1,030	-3,246	54,581

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, cytunodd y Rheolwr Cymorth Cyllid i gael gwybodaeth am lefelau incwm a dderbynnir trwy leoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol y tu allan i'r sir.

Mewn ymateb i ymholiad dilynol gan y Cadeirydd, dywedodd y Rheolwr Cymorth Cyllid fod swyddogion cyllid o Adran Addysg y Cyngor hefyd yn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu cynlluniau adfer, er bod gan ysgolion eu timau cyllid eu hunain. Ychwanegodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod ysgolion yn derbyn lefel uchel o gymorth gan y Timau Addysg a Chyllid Corfforaethol ynghylch cyllidebau, yn ogystal â chan weithwyr addysg allanol proffesiynol sydd â hanes cryf o reoli ariannol. Ychwanegodd y swyddog na allai darparu cyngor ar ei ben ei hun ddatrys yr holl broblemau ariannol sy'n wynebu ysgolion ar hyn o bryd, er y byddai gwaith gyda'r ysgolion i liniaru'r sefyllfa yn parhau.

Mewn ymateb i ymholiad dilynol gan Dr. M. Price, Aelod Cyfetholedig yr Eglwys Gatholig Rufeinig, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau nad oedd cam o'r fath yn ymarferol ac er ei bod yn gyfreithiol bosibl cymryd dros y gwaith o reoli cyllidebau ysgolion nad oeddent yn gallu cydbwysu eu cyllid, nid oedd ysgolion Bro Morgannwg wedi rhoi rheswm i'r Cyngor bryderu i gyfiawnhau'r fath gosb. Ychwanegodd y swyddog ei bod yn ofynnol i ysgolion gyflwyno cynllun adfer cyllideb a allai gwmpasu hyd at gyfnod o bum mlynedd. Byddai angen i ysgolion nad oeddent yn gallu bodloni'r targed hwn ar hyn o bryd barhau i gael eu monitro nes y gellid nodi camau gweithredu priodol.

Gan na chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, penderfynwyd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD -

- (1) Nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2023/24 yr Awdurdod.
- (2) Nodi'r trosglwyddiadau arian a gynhwyswyd fel rhan o'r adroddiad fel y nodir yn Nhabl 1.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

330 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 MAI, 2023 (CDS) –

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan y Rheolwr Cymorth Cyllid.

Rhoddodd yr adroddiad yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin, 2023. Dangoswyd manylion fesul cynllun yn Atodiad 1.

Rhoddodd Atodiad 2 grynodedb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2023 i 30 Mehefin 2023, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad.

Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2023/24 a rhai'r blynyddoedd i ddod.

Nododd yr adroddiad y Rhaglen gymeradwy gyfredol o £125.813m, sef Rhaglen gymeradwy'r Cyngor o £103.968m ynghyd â llithriad o £8.733m o 2022/23 ac ychwanegiadau o £13.112m.

Roedd yn bwysig nodi bod llawer o feysydd yn parhau i brofi costau cynyddol ynglŷn â gweithredu cynlluniau. Roedd tendrau'n cael eu derbyn dros y cyllidebau presennol a ddyrannwyd ac roedd swyddogion yn adrodd am y gofyniad i ailrafod tendrau a gyflwynwyd.

Byddai cynlluniau'n cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf a rhagwelwyd y byddai gofyn am geisiadau llithriad mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Byddai swyddogion cyllid yn parhau i weithio gyda rheolwyr a noddwyr prosiectau i sicrhau gwerth am arian a bod yr holl gyfleoedd ariannu posib yn cael eu nodi a'u harchwilio'n llawn.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, penderfynwyd y Cyngor

ARGYMHELLWYD

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2023/24 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(2) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir ym mharagraff 2.4 o'r adroddiad.

(3) Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

No.

(4) Y dylid nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2023/24 a'r blynyddoedd i ddod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir ym mharagraff 2.3 o'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

331 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2023/24 (CDS) -

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Safonau a Darpariaeth.

Ymdriniodd yr adroddiad â chynnydd y Cyngor yn Chwarter 1 (Ch1) (1 Ebrill i 30 Mehefin 2023) tuag at gyflawni ymrwymadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (2023/24) yn unol ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch1 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd hynny o ran cyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24. Priodolwyd statws perfformid Oren i un Amcan Lles Corfforaethol (Amcan Lles 3) yn Ch1.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 90% (447 o 494) o weithgareddau cynlluniedig a amlinellir yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor sy'n adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter. Priodolwyd statws Oren i 1% (4) o weithgareddau cynlluniedig a phriodwyd statws Coch i 9% (43) o weithgareddau cynlluniedig.

O'r 173 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 43 o fesurau lle roedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 51% (22), statws Oren i 12% (5), a statws Coch i 37% (16). Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 129 o fesurau gyda 27 o'r rhain yn ymwneud â'r mesurau oedd yn asesu perfformiad llinell sylfaen ar gyfer 2023/24. Adroddwyd am 92 o fesurau'n flynyddol ac nid oedd diweddariad na data ar gael ar gyfer 10 o fesurau.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau cynlluniedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 96% (129 o 135, priodolwyd statws perfformiad Oren i 1% (2) a phriodolwyd statws Coch i'r 3% olaf (4). O'r 11 mesur a adroddwyd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 46% (5), priodolwyd statws Oren i 18% (2) a phriodolwyd statws Coch i 36% (4).

Y chwarter hwn, roedd meysydd i'w gwella a amlinellwyd yn y cyflwyniad wedi'u diweddarau i adlewyrchu trosolwg o feysydd gwella penodol y cynllun gwasanaeth sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Blynyddol, meysydd datblygu a gweithgarwch sy'n dod i'r amlwg, a meysydd sy'n dechrau peri pryder sy'n benodol i gylich gwaith pob Pwyllgor Craffu dros bob un o'r 4 amcan lles. Roedd hyn yn adlewyrchu'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan Aelodau Etholedig i fonitro perfformiad ac yn cyd-fynd â'r 13 Egwyddor yn y Cynllun Gweithredu Craffu Effeithiol. Byddai'r dull hwn yn galluogi Aelodau i ganolbwyntio ar feysydd a meysydd blaenoriaeth

No.

sydd yn yr arfaeth lle dylid ystyried ymchwilio ymhellach, ynghyd â chynnydd yn erbyn ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch1 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Ar ôl ei ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, tynnwyd sylw gan y Pennaeth Safonau a Darpariaeth a'r Pennaeth Strategaeth, Dysgu ac Adnoddau at y cyfleuster ysgol newydd, Derw Newydd, yn y Barri a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio tuag at Safon Ansawdd Aur Llywodraeth Cymru lle mai ychydig iawn o awdurdodau lleol a gyflawnodd y Wobr Arian, fel enghreifftiau cadarnhaol o ddatblygu gwasanaethau.

Mewn ymateb i ymholiadau dilynol gan y Cynghorydd Marshallsea, dywedodd Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod y Cyngor yn gweithredu cynlluniau megis benthyca tabledi i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, ac ehangu prosiect Makerspaces, yn ogystal â chynnal digwyddiadau ar draws holl lyfrgelloedd Bro Morgannwg er mwyn ysgogi mwy o ddefnydd arnynt. Ychwanegodd y Swyddog fod opsiynau, o ran digwyddiadau am ddim mewn llyfrgelloedd, yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ynghylch hyblygrwydd systemau archebu i ddarparu ar gyfer unrhyw ganslo ac annog cyfranogwyr a oedd wedi archebu ar gyfer digwyddiadau i ddod i'r digwyddiad ar y dydd.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Norman, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau yr oedd partneriaethau cryf rhwng ysgolion a llyfrgelloedd, gan gynnwys llyfrgellwyr peripatetig yn ymweld ag ysgolion, er bod y model ar gyfer llyfrgelloedd ysgolion wedi newid o blaid manau darllen llai. Ychwanegodd y Swyddog fod ysgolion yn annog darllen er pleser, yn yr ysgol ac yn y cartref, trwy ddulliau fel clybiau darllen a gwobrau llyfrau.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod y dangosydd perfformiad 'Adeiladu Sgiliau Ieithyddol yr Adran' a restrir yn yr adroddiad fel eithriad perfformiad, wedi'i fesur yn ôl lefelau ymgysylltu a chofrestru dysgu Cymraeg. Dywedodd y Swyddog ymhellach mai gallu cwrdd a chyfarch pobl yn Gymraeg fyddai lefel y sgil sydd ei hangen, yn hytrach na lefel rhuglder. Ychwanegodd y gellid adrodd am lefelau cynnydd ymhlith dysgwyr yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Ychwanegodd Mr G. Scott, Aelod Cyfetholedig dros Addysg Cyfrwng Cymraeg, fod lefel y sgil sydd ei hangen yn anodd ei meintoli, a'i bod yn bwysicach dangos parch, ymwybyddiaeth ac agwedd gadarnhaol at y Gymraeg.

Gan na chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, penderfynwyd y Pwyllgor

No.

ARGYMHELLWYD

(1) Nodi canlyniadau perfformiad Chwarter 1 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y dylid nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.